COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Diolch am wahoddiad caredig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Caerdydd i ymuno â chi yn eich cynhadledd. Mae'n bleser mawr gallu bod gyda chi heddiw. Yn anffodus, mae’r pandemig wedi ei wneud yn angenrheidiol i gynnal y gynhadledd fel un rhithwir, ar-lein. Gadewch i ni obeithio na fydd yn hir cyn i bethau dechrau dychwelyd i'r arfer.

Yr wyf yn falch o ddweud bod pob un o ysgolion y gyfraith yng Nghymru bellach yn cynnig cyfle i'w myfyrwyr astudio'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r datblygiad hwn yn un i'w groesawu yn fawr iawn. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i drefnwyr y gynhadledd am roi'r cyfle hwn imi eich llongyfarch - myfyrwyr y gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd eich athrawon - am yr ymdrechion yr ydych yn eu gwneud i'r cyfeiriad hwn. Mae'r heriau’n rhai mawr. Yn benodol, mae paratoi gwerslyfrau a deunyddiau cyfreithiol yn Gymraeg wedi gofyn - ac yn dal i ofyn - am lawer iawn o waith gan academyddion cyfreithiol. Yn yr un ffordd, mae yna heriau i chi fel myfyrwyr. Gall y gyfraith fod yn anodd iawn ei meistroli ym mha bynnag iaith y caiff ei hastudio. Ond mae astudio'r gyfraith yn yr iaith Gymraeg yn ddatblygiad pwysig a hynod werthfawr am nifer o resymau.

Yn gyntaf, mae'n bwysig gan ei fod yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae’r Gymraeg yn iaith hardd a soffistigedig iawn. Mae'n sicr yn addas i'w defnyddio fel iaith gyfreithiol. Dangosir hynny, ymysg pethau eraill, gan safon y ddeddfwriaeth ddwyieithog a gynhyrchir gan y Senedd, gan y defnydd a wneir o’r Gymraeg mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru, a chan waith Comisiwn y Gyfraith. O ran defnyddio'r Gymraeg yn y llys, mae hyn wedi cynnwys achosion oedd yn ymwneud â dadleuon cyfreithiol cymhleth iawn. Cafwyd defnydd nodedig iawn o'r Gymraeg i gyflwyno dadl gyfreithiol fanwl yn 2014, pan heriodd Comisiynydd y Gymraeg yn y Llys Gweinyddol benderfyniad Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol i dynnu eu cynllun iaith Gymraeg yn ôl.[1] (Dylwn ddweud bod y Comisiynydd wedi ennill.) Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i ddatblygu terminoleg gyfreithiol safonol yn Gymraeg ac mae'n bwysig bod hynny'n parhau. Mae addysgu'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi hwb enfawr i'r broses honac yn hyrwyddo derbyn y Gymraeg fel iaith gyfreithiol naturiol.

Yn ail, mae'n darparu gwasanaeth gwych i'n system gyfreithiol. Mae'n ymddangos i mi ei bod yn ofyniad sylfaenol o degwch y dylai aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru allu defnyddio, yn y llys, y Gymraeg y maent yn cynnal eu bywydau bob dydd ynddi. Mae'r hawl hon bellach wedi'i

[1] *R (Welsh Language Commissioner) v National Savings and Investments* [2014] EWHC 488 (Admin)

sefydlu'n gadarn yn ein cyfraith. Ond, y tu hwnt i hynny, gall defnyddio'r Gymraeg yn y llys wella gwaith y system gyfiawnder. Pan oeddwn yn Farnwr Arlywyddol Cymru, bum yn llywyddu mewn nifer o dreialon troseddol yn Llys y Goron lle rhoddwyd tystiolaeth yn Gymraeg. Yn aml, roedd tystion yn rhoi tystiolaeth am sgyrsiau a oedd wedi eu cynnal yn yr iaith Gymraeg. Mewn rhai roedd cyfweliadau'r heddlu wedi'u cynnal yn Gymraeg.

Fel y gwyddoch, defnyddir y Gymraeg yn helaeth mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru, gyda chyfieithu ar y pryd i'r Saesneg. Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019 cynhaliwyd 766 o achosion yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o'r achosion hyn mewn llysoedd yng Ngogledd Orllewin Cymru. Roedd 37 yn Llysoedd y Goron, 400 mewn Llysoedd Sirol, 311 mewn Llysoedd Ynadon a 18 mewn Tribiwnlysoedd. Yn 2006 cynhaliwyd treial llofruddiaeth yn gyfan gwbl yn Gymraeg yn Llys y Goron Caernarfon.

Yn ogystal, mae barnwriaeth Gymraeg ei hiaith wedi datblygu. Gan gynnwys y farnwriaeth ran-amser, mae 30% o farnwyr Cymru yn siarad Cymraeg, gyda'r ffigwr yn codi i 39% ymhlith Barnwyr Cylchdaith. Mae dros 200 o ynadon yn gallu cynnal achosion yn Gymraeg.[2] Mae gan lawer o farnwyr eraill, er nad ydynt yn gallu cynnal achosion yn Gymraeg, ddigon o Gymraeg i allu dilyn a deall tystiolaeth a roddir yn Gymraeg.

Mae addysgu ac astudio'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan hanfodol o'r datblygiadau hyn - datblygiadau sy'n gwella ansawdd y system gyfiawnder.

Yn drydydd, mae astudio'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd i fod o werth mawr i chi fel cyfreithwyr, yn natblygiad eich gyrfa. Rydych chi i gyd yn siaradwyr Cymraeg medrus - fel arall ni fyddech yn ymgymryd ag astudio'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd eich astudiaethau'n eich helpu i ddefnyddio eich sgiliau iaith wrth ymarfer y gyfraith yng Nghymru.

Yma, gallwn sôn am ddrafftio a dehongli deddfwriaeth ddwyieithog. Mae hyn yn rhywbeth hynod iawn. Dyma'r tro cyntaf erioed inni gael system o ddeddfwriaeth ddwyieithog yn y Deyrnas Unedig ac mae'n cyflwyno heriau arbennig. Mae'r gwaith o ddrafftio deddfwriaeth yn dasg arbenigol i dîm o gyfreithwyr medrys iawn. Ond gelwir ar bob cyfreithiwr i ddehongli'r ddeddfwriaeth honno. Mae'r ddau destun iaith yr un mor awdurdodol a'i gilydd ac i fod yn fanwl-gywir, dim ond trwy ystyried y ddau destun y gellir darganfod ystyr y ddeddfwriaeth.

[2] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Atodiad A 70.

Mae hon, felly, yn dasg y byddwch chi, gyda'ch cefndir wrth astudio'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn sefyllfa arbennig o dda i ddelio â hi.

Byddwch yn sylweddoli bod fy Nghymraeg yn gyfyngedig. Cefais fy magu mewn cartref Cymraeg ond, yn y dyddiau hynny, ychydig iawn o Gymraeg a siaradwyd ym Mhontypridd lle’r roeddem yn byw. Yn sicr, nid oedd unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg bryd hynny. Euthum i'r brifysgol yn Lloegr ac yno, ar y cyfan, y gwneuthum fy ngyrfa. O ganlyniad, collais y rhan fwyaf o'm Cymraeg. Pan ddeuthum yn Farnwr Arlywyddol Cymru, gwnes i ymdrech i wella fy Nghymraeg, ac roeddwn i'n gallu ei defnyddio yn y llys. Fodd bynnag, y prif anhawster a wynebais oedd dysgu geirfa gyfreithiol. Mae hon yn broblem na fyddwch chi ddim yn gorfod ei hwynebu. Bydd eich astudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn golygu y byddwch yn rhugl mewn terminoleg gyfreithiol Gymraeg a bydd hyn yn eich helpu'n fawr i gyflwyno dadleuon cyfreithiol yn yr iaith honno.

Mae llawer o ddefnyddwyr y llysoedd hefyd wedi cael yr un anhawster. Mae gwahaniaeth enfawr rhwng Cymraeg sgyrsiau bob dydd a'r Gymraeg mwy ffurfiol y mae'n rhaid ei defnyddio yn y llys. Yn benodol, nid yw termau cyfreithiol technegol Cymraeg yn rhan o eirfa bob dydd y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg. Mae ymchwil academaidd diweddar wedi datgelu nifer o achosion lle nad oedd y diffynyddion, ar ôl dewis y Gymraeg fel iaith yr achos, yn gallu dilyn y trafodion. Dyfynnir un yn dweud:

> "I didn’t understand what was happening it was so posh."[3]

Mae yna stori am gais am fechnïaeth gerbron Ynadon Caernarfon a gynhaliwyd yn gyfan gwbl yn Gymraeg ar gais y diffynnydd. Ar ddiwedd y gwrandawiad, cyhoeddodd Cadeirydd y Fainc eu penderfyniad yn Gymraeg: "Yr ydym ni wedi penderfynu caniatáu mechniaeth". Gyda hynny, gwylltiodd y diffynnydd a bloeddiodd dros y llys:

> "Dwy ddim ishio blydi mechniaeth, dwi isho blydi *bail*."

Bydd y cyfyngiadau hyn ar sgiliau Cymraeg llawer o ddefnyddwyr y llysoedd yn fater y byddwch yn dod ar ei draws wrth ymarfer y gyfraith ac y bydd yn rhaid i chi wneud lwfans amdano.

Gadewch imi gloi drwy ddweud rhywbeth am eisteddiad y Goruchaf Lys yng Nghymru. Mae'r Goruchaf Lys fel arfer yn eistedd yn ei adeilad yn Parliament Square yn Llundain – er bod ein

---

[3] Iolo Madog-Jones ac Odette Parry, "It’s always English at the Cop Shop": Accounts of Minority Language Use in the Criminal Justice System in Wales, The Howard Journal of Criminal Justice, Vol. 52, Rhif 1: 91,101.

holl achosion wedi'u clywed ar-lein yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd y llys wedi eistedd unwaith yng Nghaeredin ac unwaith yn Belfast ac roeddwn wrth fy modd pan eisteddodd y Goruchaf Lys yng Nghymru am y tro cyntaf, yng Ngorffennaf 2019. Buom yn eistedd am wythnos yn y Senedd ym Mae Caerdydd. I mi, roeddwn yn dychwelyd adref ac roedd y profiad yn un hapus ac emosiynol iawn. Gwyddoch fod Deddf yr Iaith Gymraeg 1993[4] yn darparu y gall unrhyw barti, tyst neu berson arall, sy'n dymuno ei defnyddio, siarad yn Gymraeg mewn unrhyw achos cyfreithiol yng Nghymru.[5]. Er i'r apeliadau a glywsom gael eu cynnal yn Saesneg, roeddem yn benderfynol y dylid defnyddio'r Gymraeg yn ystod y trafodion. Fe'i siaradwyd yn ystod y seremonïau agor a chau. Yn ogystal, cyflwynodd y llys ei ddyfarniad mewn achos a oedd wedi'i glywed yn Llundain – *X yn erbyn (v) Kuoni*[6] – a cyhoeddais y dyfarniad yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn yr achos hwnnw, roeddem wedi penderfynu cyfeirio cwestiwn at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ac, o ganlyniad, dyma'r unig achos lle y gwnaed cyfeiriad at y Llys Cyfiawnder yn Lwcsembwrg yn Gymraeg. Nid yw'r Llys Cyfiawnder wedi cyflwyno ei ddyfarniad eto. Nid ydym yn disgwyl y bydd y dyfarniad hwnnw yn Gymraeg.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r gynhadledd hon ac y byddwch yn ei chanfod o gymorth yn eich astudiaethau. Sylweddolaf eich bod chi, ac yn wir pob myfyriwr, yn mynd drwy gyfnod anodd iawn ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig. Sylweddolaf fod astudio o bell yn her. Yn sicr nid yw'n gymaint o hwyl â bod yng nghwmni myfyrwyr eraill. Ond gallaf eich sicrhau bod y cyrsiau yr ydych yn eu dilyn yn rhai o wir werth ac y byddwch, maes o law, mewn sefyllfa dda i ymuno â'r proffesiynau cyfreithiol ac i ymarfer y gyfraith. Yr wyf yn siŵr y gallwch i gyd edrych ymlaen at yrfaoedd llwyddiannus, gwerth chweil a boddhaus yn y gyfraith.

Gallaf eich sicrhau fy mod yn dymuno llond y byd o lwc i chi.

---

[4] A ail-ddeddfodd yr hyn a oedd, cyn hynny, yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1967.

[5] "Adran 22(1) In any legal proceedings in Wales the Welsh language may be spoken by any party, witness or other person who desires to use it, subject in the case of proceedings in a court other than a magistrates' court to such prior notice as may be required by rules of court; and any necessary provision for interpretation shall be made accordingly.

(2) Any power to make rules of court includes power to make provision as the use, in proceedings in or having connection with Wales, of documents in the Welsh language."

[6] X *v Kuoni Travel Ltd* UKSC 2018/0102; [2019] UKSC 37 [Dyddiad y cyfeirio: 24/07/2019]